Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.7 Sut i gadw gwirfoddolwyr

Cefnogaeth

Dylai pob gwirfoddolwr wybod at bwy i fynd ato pan fo problem. Mae'r lefel cefnogaeth a rowch i wirfoddolwyr yn dibynnu ar beth a wnânt. Er enghraifft, bydd angen mwy o gefnogaeth ar gynghorydd gwirfoddol na rhywun sy'n gweithio mewn siop elusen, ac efallai bydd angen mwy o gefnogaeth ar wirfoddolwr oherwydd salwch, cyflwr neu ddiffyg hyder. Dylid adnabod hwn yn gynnar yn y lleoliad a'i adolygu'n gyson, wrth i'r angen am gefnogaeth leihau, wrth i brofiad a sgiliau gynyddu, neu wrth iddo dyfu ar adegau straen personol. Daw cefnogaeth mewn sawl ffurf:

- talu mân dreuliau
- mentora
- cyfarfodydd cefnogaeth grŵp
- cynghori
- cefnogaeth dros y ffôn ac un ac un
- gwahodd gwirfoddolwyr i fynychu cyfarfodydd tîm
- trefnu digwyddiadau cymdeithasol

Arolygaeth

Mae angen arolygaeth gyson ar wirfoddolwyr i'w darparu â'r gefnogaeth angenrheidiol i wneud y tasgau a osodir. Mae arolygaeth gyson yn darparu cyfle i'r gwirfoddolwyr a'r arolygwyr i:

- wirio os ydynt yn mwynhau'r rôl
- nodi os oes angen mwy o gefnogaeth
- edrych ar ffyrdd arall o weithio
- asesu os oes angen mwy o hyfforddiant
- holi sut maen nhw'n dod ymlaen gyda staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaeth eraill.

Mae cynnig sesiynau arolygu cyson i wirfoddolwyr yn tanlinellu pwysigrwydd eu gwaith. Wrth i chi baratoi ar gyfer arolygu, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, dylech sicrhau y dilynir yr egwyddorion sylfaenol. Dylai'r amser a rowch i wirfoddolwr unigol fod yn gyfan gwbl ar ei gyfer ef / hi, dylech fod yn rhydd o ymyriadau, a dylech gynnal y sesiynau yn rheolaidd a chyson. Mae'n ddefnyddiol hefyd i gadw cofnod personol o'r arolygaeth, a rhowch gopïau o'r rhain i'r gwirfoddolwyr.

Gwerthusiadau

Wrth gynnwys gwirfoddolwyr, bydd rhaid i chi wybod fod y gwaith a wnânt yn cwrdd ag anghenion y mudiad a'r gwirfoddolwr. Gall gwerthusiadau blynyddol fod yn un ffordd i adnabod sut mae gwirfoddolwyr yn teimlo am eu gwaith a'u rolau, eu perfformiadau unigol a'i datblygiad gyrfa o fewn y mudiad. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y gwerthusiad, mae'n hanfodol i'r gwirfoddolwr a'r gwerthuswr wneud y gorau o'r cyfle i gael trafodaeth lawn ac agored.

Dylid cofnodi canlyniadau'r gwerthusiad a'u cadw'n gyfrinachol ar gyfer y gwirfoddolwr a'r gwerthuswr.

Dylai gwerthusiad gyfeirio at y cwestiynau canlynol:

- ers ein gwerthusiad diwethaf, sut ydych chi'n ffeindio'r gwaith?
- beth ydych chi'n ei fwynhau?
- beth nad ydych yn ei fwynhau?
- oes yna rywbeth allwn ni wneud i wneud eich rôl yn haws?
- ydych chi angen unrhyw hyfforddiant?
- allwch chi weld meysydd gwaith eraill o fewn y mudiad yr hoffech roi cynnig arnynt?

Rhoi gwerth ar, a chydnabyddiaeth i, wirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn gwerthfawrogi derbyn diolch am yr amser a'r ymrwymiad a roddir. Mae Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr yn gyfle delfrydol i longyfarch gwirfoddolwyr am eu gwaith caled. Cynhelir hwn yn flynyddol yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin. Mae WCVA yn gweinyddu Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn yng Nghymru, sy'n rhoi tystysgrifau cydnabyddiaeth am gyflawniadau gwirfoddoli arbennig ar draws y wlad. Gellir cael ffurflenni enwebu o fis Rhagfyr i fis Mawrth bob blwyddyn o Ganolfannau Gwirfoddoli, neu gellir lawr lwytho o www.wcva.org.uk

Gwybodaeth bellach

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:10/04/2007

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk